

Mae'r daith hon yn mynd â ni drwy diroedd amaethyddol pen draw'r penrhyn, ar hyd ben rallt gyda golygfeydd gwych o fywyd môr a'r glannau, ac ar hyd ambell ffordd wledig. Cawn flas o fywyd porthladdoedd bach y glannau hyn a chyfle i weld eglwys hynafol arbennig ar Lwybr y Pererinion ac sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

Manylion y daith

Amcan o hyd: 6.4 kilometr/4 milltir.

Amcan o'r amser: 2.5 awr.

Map AO: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

Man cychwyn/gorffen: Maes Parcio Penllech, SH206 342.

Mynediad a chyfleusterau

Parcio: Maes Parcio Penllech, lle i 20 car; 3 bwrdd picnic; bwrdd gwybodaeth, LL53 8PA.

Bws: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toiledau: Canolfan Dreftadaeth a Natur Llŷn, Capel Penygraig (drwy drefniant: canolfan@llyn.co.uk).

Lluniaeth: Canolfan Dreftadaeth a Natur Llŷn, Capel Penygraig.

Nodwch

- Dim darnau anodd ar y daith hon, ond mae rhai o'r darnau arfordirol yn golygu dringo neu ddisgyn nifer o risiau ac mae'n amhosib cerdded ar ran o'r traeth pan fo'n ben llanw (gweler linc www.llyn.info/tides/ neu www.tidetimes.co.uk).
- Mae'n croesi nant ar y traeth, felly angen esgidiau addas.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad:
Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch
naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf

Cylchdaith

9 Llangwnnadl



Mannau o ddiddordeb

Mae **Porth Colmon** ① yn enghraifft nodedig o borthau arfordirol traddodiadol gogledd Llŷn. Cafwyd glanfa yno i longau'n hwylio gyda'r glannau drwy chwythu'r creigiau ar y traeth llechog. Galwai stemars yno yn ddiweddarach gan gludo nwyddau a theithwyr yn ôl ac ymlaen i Gaernarfon a Lerpwl. Gallwch ganfod dolennau haearn ar gyfer rhwymo'r hen longau yng nghreigiau'r lanfa o hyd ac mae olion iard lo ac o'dyn yn y borth. Ar fwrdd treftadaeth ger giât y llwybr, mae disgrifiad da o'r winsh arbennig a adeiladwyd yno ar gyfer dadlwytho llongau.

Enw arall ar **Porth Tŷ Mawr** ② yw Porth Wisgi. Yn 1901 drylliwyd llong y Stuart ar y creigiau yma. Roedd ar ei ffordd o Lerpwl i Seland Newydd gyda swyddogion ifanc a chriw o 19. Daeth y criw i'r lan yn ddiogel a chredid y gellid ailgodi'r llong ar lanw uchel. Ond daeth storm o'r môr gan dorri ei mastiau ac agor yr howld gan wasgar ei chargo ar hyd y glannau. Ymysg y llwyth roedd llestri, pianos, canhwylau - a stowt a wisgi. Mae baledi a haneswyr lleol yn sôn am firi mawr wrth i bobl yr ardal heidio i'r porthau i gasglu nwyddau - a rhai yn agor y poteli wisgi ar y creigiau ac yfed y cynnwys yn y fan a'r lle. Does fawr ddim i'w weld o weddillion y *Stuart* erbyn hyn - heblaw am ddarnau o'i haearn yma ac acw yn y caeau a malurion llestri yn y cerrig trai.

Mae **Eglwys Llangwnnadl** ③ yn un o hen eglwysi Llŷn sydd ar Lwybr y Pererinion a âi am Ynys Enlli yn yr Oesoedd Canol. Roedd Gwynhoedl, nawdd sant yr eglwys, yn un o'r seintiau cynnar pan oedd yr Eglwys Geltaidd yn ffynnu ar lannau gogledd-orllewinol Ewrop ers y bumed a'r chweched ganrif. Eir i'r fynwent drwy giât haearn addurniedig, gyda'r geiriau 'Tŷ Dduw' arni, a wnaed gan y gof Myrddin Fardd o Chwilog. Mae'n adeilad hyfryd, gyda thair cangell iddi - yr un ganol yw'r hynaf mae'n debyg.

Mae **Canolfan Dreftadaeth a Natur Llŷn** wedi'i leoli yng Nghapel Penygraig ④. Cynhaliwyd gwasanaeth emosiynol iawn yn y capel hwn yn 1825 i ffarwelio â dros hanner cant o drigolion y plwyf oedd yn gadael wedyn ar long o Borth Colmon fyddai'n eu cludo i Lerpwl i ddal llong i ymfudo i America.

Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Cerddwch o'r maes parcio i gyfeiriad Tudweiliog ac ar ôl croesi'r bont, dilynwch y llwybr gyda glan yr Afon Fawr drwy gaeau bychain i Draeth Penllech. Os yw'r llanw'n caniatu, croeswch ran o'r traeth, drwy'r afon, ac i fyny'r grisiau i'r llwybr sy'n mynd ar hyd ben rallt i Borth Colmon. Ewch ymlaen ar hyd y Llwybr Arfordir am rhyw filltir ar ôl hynny a throi i'r chwith yn ôl i gyfeiriad y tir. Croeswch dir amaethyddol nes cyrraedd lôn darmac. Trowch i'r chwith eto gan ddilyn y ffordd darmac nes canfod y llwybr sy'n mynd â chi drwy amryw o gaeau nes cyrraedd Eglwys Llangwnnadl. Croesi'r ffordd ac ymlaen drwy gaeau bychain eto nes cyrraedd lôn wledig arall. I'r dde a chwblhau'r daith yn y maes parcio.



This walk takes us through the far end of the peninsula's farmland, along a clifftop with fantastic views of sea and shore life, and along a few country lanes. We'll get a taste of the lives of these shores' small ports, and have the chance to view a distinctive ancient church on the Pilgrim's Trail and within the Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty.

Walk details

Approx. distance: 6.4 km/4 miles.

Approx. time 2.5hrs.

OS Map: 1:25 000 scale Explorer Map 253.

Start/Finish: Penllech car park, SH206 342.

Access and amenities

Parking: At Penllech car park, 20 spaces; 3 picnic tables; heritage board, LL53 8PA.

Bus: See Llŷn Coastal Bus service: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toilets: Llŷn Heritage and Nature Centre, Penygraig Chapel (by arrangement: canolfan@llyn.co.uk).

Refreshment: Llŷn Heritage & Nature Centre, Penygraig Chapel.

Please note

- Some parts of the coastal path require climbing or descending a number of steps; it's impossible to gain access to the beach at high tide (see www.llyn.info/tides/).
- This walk crosses a stream on the beach, therefore please wear appropriate footwear.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: **Respect, Protect, Enjoy** naturalresources.wales/media/1369/the-countryside-code.pdf

9 Llangwnnadi Circular walk



Walk directions

Exit the car park towards Tudweiliog and after crossing the bridge, follow the path along the bank of Afon Fawr through small fields to Penllech Beach. If the tide permits, cross part of the beach, through the river, and climb the steps to the path that leads along the clifftop to Porth Colmon. Continue along the Coastal Path for about a mile after this, then turn left to go back inland. Cross farmland until you reach a tarmac road. Turn left again, following the tarmac road until you come to the path that takes you through several fields until you reach Llangwnnadi Church. Cross the road and carry on through small fields again until you reach another country lane. Turn right to complete the walk at the car park.

Points of interest

Porth Colmon ① is a notable example of the traditional coastal harbours of northern Llŷn. A jetty was gouged here for ships sailing along the shores by blowing the rocks onto the slate beach. Later, steamers would call by carrying goods and passengers back and forth to Caernarfon and Liverpool. Iron loops used to tie up the old ships to the jetty rocks can still be found here, and there are signs of a coal yard and a kiln in the harbour. There is a good description on the heritage board by the path gate of the special winch built there for unloading ships.

Another name for **Porth Tŷ Mawr ②** is Porth Wisgi. In 1901, a ship called the *Stuart* was wrecked on these rocks, on its way from Liverpool to New Zealand with young officers and a crew of 19. The crew managed to come ashore safely and they believed that the ship could be lifted again at high tide. But a storm came in from the sea breaking its masts and opening the hold, scattering its cargo ashore. Among the loads were crockery, pianos, candles – and stout and whiskey. Ballads and local historians tell the tale of much merriment as the locals swarmed to loot the goods – with some opening the whiskey bottles on the rocks and drinking the contents there and then. There is scarcely anything left of the *Stuart* by now – apart from iron remnants here and there in the fields and fragments of crockery among the stones at low tide.

Eglwys Llangwnnadi ③ is one of the old Llŷn churches situated along the Pilgrim's Trail which headed towards Bardsey Island in the Middle Ages. Gwynhoedl, the church's patron saint, was one of the early saints in the days when the Celtic Church prospered on the north-west coast of Europe in the 5th and 6th centuries. The cemetery is accessed through the ornate iron gate with the words 'Tŷ Dduw' (God's House) written on it. This was crafted by the blacksmith Myrddin Fardd from Chwilog. It's a charming building with three chancels – the one in the middle appears to be the oldest.

The **Llŷn Heritage and Nature Centre** is located at Penygraig Chapel ④. A very emotional service was held here in 1825 to bid farewell to over fifty of the parish's



residents who were preparing to leave on a ship from Porth Colmon to Liverpool, where they would board another ship destined for emigration to America.

